**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01296/20
John Boyle,

JBoyle@into.ie

7 May 2020

Dear John Boyle,

**Letter to BIGTU from MFE in response to letter regarding future reopening schools**

I write in response to your letter regarding the issue of schools reopening across the 4 jurisdictions of the UK and that of the Republic of Ireland, following an end to lockdown arrangements in all our countries.

There is a lot of speculation about what may or may not be announced regarding schools across the UK.

Ahead of the bank holiday weekend I want to be clear that the situation for schools in Wales will not change on June 1st.

Schools and hubs have remained open for the children of critical workers and vulnerable children and I would like to thank your members for their commitment during this time of national need.

My five key principles for the next phase remain the same and will continue to guide the decisions that I take.

Next week I will publish a working document that sets out more of our thinking, planning and modelling for the next steps for education in Wales. This will include details of how we will take decisions in moving to the next phase and who is involved in advising us.

We will continue to be guided by the very latest scientific advice and will only look to have more pupils and staff in schools when it is safe to do so – we will, of course, need to ensure that social distancing requirements can be adhered to.

We know that local authorities and many schools are thinking about the practicalities associated with opening school doors to more learners. We are working closely with Local Authorities to ensure that schools are supported in this preparation work.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

We want to ensure that any decision we take is safe and that parents, workers and children have confidence in those decisions.

You have my guarantee that we will give everyone time to plan ahead of a next phase starting – that's why I wanted to let you know now that there will not be a change in Wales on June 1st.

I hope that clarifies the situation and provides answers to some of the questions you may have in this time of uncertainty.

My first, and most important consideration, is the safety and mental, emotional and physical wellbeing of students and staff.

I would appreciate it if you could share this message to help others understand what is happening in Wales, and ensure that in your communications you are clear which administrations you are commenting on in particularly in media communications.

I will write to you separately on the other issues raised in the letter.

Yours sincerely

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Cc Patrick Roach, General Secretary NASUWT
Mary Bousted, Joint General Secretary NEU
Kevin Courtney, Joint General Secretary NEU
Jo Grady, General Secretary UCU

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01296/20
John Boyle,

JBoyle@into.ie

7 Mai 2020

Annwyl John Boyle,

**Llythyr at y BIGTU gan y Gweinidog Addysg mewn ymateb i lythyr ynghylch ailagor ysgolion yn y dyfodol**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynghylch y mater o ysgolion yn ailagor ar draws 4 awdurdodaeth y DU a Gweriniaeth Iwerddon, wedi diwedd ar drefniadau cyfyngiadau symud yn ein holl wledydd.

Mae llawer o ddyfalu ynghylch yr hyn a allai neu na ellir ei gyhoeddi mewn perthynas ag ysgolion ledled y DU.

Cyn penwythnos gŵyl y banc rwyf am fod yn glir na fydd y sefyllfa i ysgolion yng Nghymru yn newid ar y 1af o Fehefin.

Bydd ysgolion a hybiau'n aros ar agor i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed ac, unwaith eto, hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio ynddynt.

Mae ysgolion a chanolfannau wedi parhau i fod ar agor i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed a hoffwn ddiolch i'ch aelodau am eu hymroddiad yn ystod y cyfnod hwn o angen cenedlaethol.

Mae fy mhum egwyddor allweddol ar gyfer y cam nesaf yn aros yr un fath a byddant yn parhau i lywio fy mhenderfyniadau.

Wythnos nesaf byddaf yn cyhoeddi dogfen weithio sy'n nodi mwy o'n hystyriaethau, ein gwaith cynllunio a'n gwaith modelu ar gyfer y camau nesaf ar gyfer addysg yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys manylion am sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau wrth symud i'r cam nesaf a phwy sy'n ein cynghori.

Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y cyngor gwyddonol diweddaraf, a byddwn ond yn ceisio cael mwy o ddisgyblion a staff mewn ysgolion pan fydd yn ddiogel i wneud hynny – bydd angen i ni, wrth gwrs, sicrhau y gellir cadw at ofynion ymbellhau cymdeithasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwyddom fod awdurdodau lleol a llawer o ysgolion yn meddwl am yr agweddau ymarferol sy'n gysylltiedig ag agor drysau ysgolion i fwy o ddysgwyr. Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi yn y gwaith paratoi hwn.

Rydym am sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wnawn yn ddiogel a bod gan rieni, gweithwyr a phlant hyder yn y penderfyniadau hynny.

Rwy'n eich sicrhau y byddwn yn rhoi amser i bawb gynllunio cyn dechrau'r cam nesaf – dyna pam yr oeddwn am roi gwybod i chi nawr na fydd newid yng Nghymru ar y 1af o Fehefin.

Gobeithio bod hynny'n egluro'r sefyllfa ac yn rhoi atebion i rai o'r cwestiynau a allai fod gennych yn y cyfnod o ansicrwydd yma.

Fy ystyriaeth gyntaf, a'r bwysicaf, yw diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech rannu'r neges hon er mwyn helpu eraill i ddeall beth sy'n digwydd yng Nghymru, a sicrhau eich bod yn nodi'n glir yn eich gohebiaeth pa weinyddiaethau yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt, yn enwedig o ran cyfathrebu â'r cyfryngau.

Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân am y materion eraill a godwyd yn y llythyr.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education
Cc Patrick Roach, General Secretary NASUWT
Mary Bousted, Joint General Secretary NEU
Kevin Courtney, Joint General Secretary NEU
Jo Grady, General Secretary UCU